# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Is-Bwyllgor Trwyddedu | Dyddiad: | 20 Tachwedd 2018 |
| | | Rhif Union: | 01824 712568 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD MERCHER, 28 TACHWEDD 2018** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**1 PENODI CADEIRYDD**

Penodi Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**CEISIADAU I'W HYSTYRIED -**

**3 DEDDF TRWYDDEDU 2003: CAIS I ADOLYGU TRWYDDED EIDDO – THE BARRELL, 37-39 STRYD Y DŴR, Y RHYL** (Tudalennau 9 - 150)

Ystyried cais gan Heddlu Gogledd Cymru i adolygu Trwydded Eiddo a wnaed yn unol ag Adran 51 o Ddeddf Trwyddedu 2003 o ran The Barrell, 37-39 Stryd y Dŵr, y Rhyl (amlinelliad o'r cais a phapurau cysylltiedig ynghlwm).

**10.00 a.m.**

**4 DEDDF TRWYDDEDU 2003: CAIS AM DRWYDDED SAFLE NEWYDD– ORIGIN 168 STRYD FAWR, PRESTATYN** (Tudalennau 151 - 184)

Ystyried cais am Drwydded Eiddo newydd, a gyflwynwyd yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Trwyddedu 2003 o ran 168, Stryd Fawr, Prestatyn (mae amlinelliad o'r cais a phapurau cysylltiedig ynghlwm).

**11.30 a.m.**

Nodwch y drefn i'w chymryd gan yr Is-Bwyllgor (sydd ynghlwm wrth y rhaglen hon).

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Hugh Irving
Alan James
Melvyn Mile
Arwel Roberts

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Is - Bwyllgor Trwyddedu

## Trefniadau gwrandawiad arolwg
## S.51 Deddf Trwyddedu 2003

| Cam | Disgrifiad |
|---|---|
| 1. | Cadeirydd yr Is - Bwyllgor Trwyddedu yn agor y gwrandawiad arolwg. Croesawu pawb. Cyflwyno cydweithiwr ar yr Is-bwyllgorau a swyddogion. |
| 2. | Cadeirydd yn gwahodd y Swyddog Trwyddedu i gyflwyno cais. |
| 3. | Cadeirydd yn gwahodd yr ymgeisydd (neu gynrychiolydd) i gyflwyno'r cais. |
| 4. | Cadeirydd yn gwahodd (os oes yn bresennol) unrhyw Awdurdod cyfrifol arall i roi sylwadau. |
| 5. | Cadeirydd yn gwahodd Aelodau o'r Is - Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd ac unrhyw Awdurdod cyfrifol sy'n bresennol. |
| 6. | Cadeirydd yn gwahodd eraill i roi sylwadau |
| 7. | Cadeirydd yn gwahodd dalwyr Trwyddedau adeilad i roi sylwadau. |
| 8. | Cadeirydd yn gwahodd Aelodau o'r Is - Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i'r daliwr Trwyddedu adeilad ac eraill ac egluro unrhyw bwynt hefo'r ymgeisydd. |
| 9. | Cadeirydd yn gwahodd yr Ymgeisydd (neu gynrychiolydd) i roi datganiad terfynol. |
| 10. | Bydd Aelodau'r Is - Bwyllgor Trwyddedu yn encilio i ystyried eu penderfyniad hefo clerc y gwrandawid ac ymgynghorydd cyfreithiol. |
| 11. | Aelodau'r Is - Bwyllgor Trwyddedu yn dychwelyd i fynegi eu penderfyniad, a'u rhesymau. |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

## Y DREFN AR GYFER CEISIADAU A WNEIR DAN Y DDEDDF TRWYDDEDU 2003

| Cam | Disgrifiad |
|---|---|
| 1. | Mae Cadeirydd yr Is-Bwyllgor Trwyddedu yn agor y Gwrandawiad ac yn croesawu pawb sy'n bresennol. Mae'n cyflwyno'r Cydweithwyr ar yr Is-Bwyllgor a'r Swyddogion sy'n Bresennol. |
| 2. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd y Swyddog Trwyddedu i gyflwyno'r Cais. |
| 3. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd yr Ymgeisydd (neu'r Cynrychiolydd Penodedig) i gyflwyno'r Cais. |
| 4. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd unrhyw Awdurdodau Cyfrifol (e.e. Heddlu, Gwasanaeth Tân) i gyflwyno eu sylwadau. |
| 5. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i'r Ymgeisydd neu'r Awdurdodau Cyfrifol. |
| 6. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd y Rhai â Diddordeb i gyflwyno eu sylwadau. |
| 7. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i'r Rhai â Diddordeb ac i egluro unrhyw bwyntiau gyda'r Ymgeisydd. |
| 8. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd yr Ymgeisydd (neu'r Cynrychiolydd Penodedig) i wneud datganiad terfynol. |
| 9. | Bydd Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu yn ymneilltuo i ystyried eu penderfyniad, gyda'r Clerc i'r Gwrandawiad a'r Ymgynghorydd Cyfreithiol i'w canlyn. |
| 10. | Mae Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu yn dychwelyd gyda'u penderfyniad ar y Cais, gyda rhesymau i'w gefnogi. |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Is-bwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 28 Tachwedd 2018 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu) 01824 706433 licensing@denbighshire.gov.uk |
| **TESTUN:** | Cais i Adolygu Trwydded Eiddo dan Adran 51 Deddf Trwyddedu 2003: **The Barrell, 37-39 Stryd y Dŵr, y Rhyl** **Rhif Trwydded: PL(A)0385** |

## 1.0 PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi cael cais i adolygu trwydded eiddo yn unol ag Adran 51 o Ddeddf Trwyddedu 2003.

1.2 Cyflwynwyd y cais gan y Prif Arolygydd Andrew Williams o Heddlu Gogledd Cymru mewn perthynas â The Barrell, 37-39 Stryd y Dŵr, y Rhyl, LL18 1SR.

## 2.0 CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae hwn yn gais am adolygu trwydded eiddo bresennol. Gall awdurdod cyfrifol neu rywun â diddordeb alw am adolygu trwydded ond mae'n rhaid iddo fod yn berthnasol i un neu fwy o'r pedair amcan trwyddedu:

- Atal trosedd ac anhrefn;
- Diogelwch y cyhoedd;
- Atal niwsans cyhoeddus; ac
- Amddiffyn plant rhag niwed.

2.2 Atgoffir yr Aelodau bod yn rhaid i unrhyw benderfyniad a wneir fod yn unol â (i) Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor,
(ii) y Canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r
(iii) gyfraith gyffredinol.

2.3 Gan weithredu yn rhinwedd Awdurdod Trwyddedu, rhaid i Aelodau geisio hybu'r Amcanion Trwyddedu.

2.4 Atgoffir Aelodau'r Is-bwyllgor Trwyddedu na allant arfer eu disgresiwn mewn unrhyw achos, am eu bod yn ystyried bod hynny'n ddymunol, a dylid rhoi rheswm (rhesymau) dros unrhyw benderfyniad a wneir, neu os

penderfynir gwyro mewn unrhyw ffordd o’r Protocol, y Polisi neu’r Canllawiau.

**3.0 ARGYMHELLION**

3.1 Penderfyniad yr Is-Bwyllgor

Mae’n rhaid i’r Is-Bwyllgor, o ystyried y seiliau ar gyfer yr Adolygiad, ynghyd ag sylwadau ychwanegol a wneir, gymryd camau o’r fath (isod) y maent yn eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn hyrwyddo’r amcanion trwyddedu. Gall yr Is-bwyllgor:

- addasu amodau’r Drwydded;
- eithrio gweithgaredd drwyddedadwy o gwmpas y Drwydded;
- cael gwared ar y goruchwyliwr eiddo dynodedig;
- gwahardd y Drwydded am gyfnod o hyd at 3 mis, neu
- dirymu’r Drwydded.

**4.0 GWYBODAETH GEFNDIR**

4.1 Mae canllawiau a gyflwynwyd o dan Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003:

*“Mae’r trafodion a amlinellir yn Neddf 2003 ar gyfer adolygu trwyddedau eiddo yn cynrychioli amddiffyniad allweddol ar gyfer y gymuned lle mae problemau sy’n gysylltiedig ag amcanion trwyddedu yn digwydd ar ôl caniatáu neu amrywio trwydded eiddo.*

*Gall awdurdod cyfrifol neu rywun â diddordeb, yn dilyn caniatáu trwydded eiddo, ofyn i'r awdurdod trwyddedu i adolygu’r drwydded oherwydd problem sy’n cosi yn yr eiddo mewn perthynas ag unrhyw un o’r pedwar amcan trwyddedu”*

4.2 Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cyflwyno cais i adolygu trwydded eiddo gan Mr Ian Mcallister mewn perthynas â The Barrell, 37-39 Stryd y Dŵr, y Rhyl.

4.3 Y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig yn yr eiddo yw Mr David Jai Jones.

4.4 Gellir archwilio copi llawn o’r Drwydded Eiddo bresennol gan gynnwys yr atodlen weithredu gyfredol yn Atodiad A.

4.5 Mae’r seiliau dros adolygu yn ymwneud ag atal trosedd ac anhrefn a diogelwch y cyhoedd, fel nodwyd ar y cais:

- Mae gan Heddlu Gogledd Cymru ddiffyg hyder yn rheolwyr yr eiddo i reoli'r eiddo’n gyfrifol.
- Methiant i herio cwsmeriaid meddw a chaniatáu i gwsmeriaid feddwi ar y safle a gweini cwsmeriaid meddw.

- Methiant i reoli ymddygiad cwsmeriaid ar y safle.
- Methiant y safle i reoli achosion o drosedd ac anhrefn yn ddigonol.
- Tystiolaeth o amgylchedd o fewn yr eiddo lle caiff cymryd cyffuriau ei oddef yn agored.
- Methiant i roi gwybod am yr holl achosion o drosedd ac anhrefn i Heddlu Gogledd Cymru.
- Mae Heddlu Gogledd Cymru o'r farn nad yw'r oriau ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy yn addas ar gyfer yr eiddo a bod y rhan fwyaf o ddigwyddiadau yn digwydd ar ôl 00:00.
- Methiant i hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu, yn enwedig Atal Trosedd ac Anrhefn, Diogelwch Cyhoeddus ac Atal Niwsans Cyhoeddus."

4.6 Gellir archwilio manylion llawn y cais i adolygu a'r digwyddiadau a fynychwyd gan Heddlu Gogledd Cymru yn Atodiad B i'r Adroddiad hwn.

4.7 <u>Deddf Trwyddedu 2003 - gwybodaeth/gofynion</u>
Pan fydd cais yn cael ei gyflwyno am adolygu trwydded eiddo, mae'n rhaid rhoi copi llawn o'r cais (a'r tir amgaeedig) i bob awdurdod cyfrifol ac i'r deilydd trwydded eiddo.

4.8 <u>Hysbysiad Cyhoeddus</u>
Pan dderbynnir cais am adolygiad gan yr Awdurdod Trwyddedu, mae'r Ddeddf yn mynnu bod hysbysiad sy'n hysbysebu'r cais yn cael ei arddangos, yn yr eiddo dan sylw, ac ym mhrif swyddfeydd yr Awdurdod Trwyddedu am isafswm cyfnod o 28 diwrnod olynol.

4.9 <u>Sylwadau Perthnasol</u>
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau pellach gan yr Awdurdodau Cyfrifol nac aelodau'r cyhoedd mewn ymateb i'r cais am Adolygiad.

4.10 <u>Ystyriaethau a Materion sy'n berthnasol i'r Cais</u>
Bydd yr Aelodau'n nodi, wrth ystyried y Cais, y dylent ystyried cydbwysedd er budd perchnogion, gweithwyr, cwsmeriaid a chymdogion yr eiddo.

4.11 <u>Ystyriaethau Amcanion Trwyddedu / Canllawiau / Polisi</u>
Mae'r sylwadau perthnasol yn ymrwymo'r amcanion trwyddedu. Cyfeirir yr Is-bwyllgor, mewn perthynas â'r cais hwn, at y canllawiau a roddwyd dan Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003:
- Atal Trosedd ac Anrhefn - **Adran 2.1 i 2.7**
- Diogelwch y Cyhoedd – **Adran 2.8 i 2.17**

4.12 <u>Datganiad Polisi Trwyddedu – Y Broses Adolygu</u>
Cyfeirir yr Is-bwyllgor, mewn perthynas â'r cais, at Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor:
- Atal Trosedd ac Anrhefn - **Adran 5**
- Diogelwch y Cyhoedd – **Adran 6**

4.13 Atgoffir yr aelodau hefyd bod rhaid iddynt ystyried y canlynol wrth wneud penderfyniad ynglŷn â’r Cais yn unol â’r Ddeddf Trwyddedu: –

- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 sy’n rhoi dyletswydd arno i atal/lleihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal
- Rheolau cyfraith gyffredin o gyfiawnder naturiol
- Darpariaethau o Ddeddf Hawliau Dynol 1998

## 5.0 SYLWADAU’R SWYDDOGION

5.1 Mae Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd wedi cyflwyno’r sylwadau canlynol i gynorthwyo Aelodau gyda’u hystyriaethau.

5.2 Fe ddylai Aelodau ystyried y Canllawiau a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor yn ofalus, yn arbennig o ran y meysydd a amlygir yn yr adroddiad hwn. Atgoffir Aelodau mai ar sail tystiolaeth/rheswm da yn unig y dylid gwyro oddi wrth y Polisi.

5.3 Yn ychwanegol at 5.2 uchod, atgoffir Aelodau hefyd bod protocol gorfodi ar y cyd yn bodoli gyda Heddlu Gogledd Cymru a'r Cyngor. Mae'r protocol gorfodi ar y cyd hwn yn disgrifio sut y bydd Heddlu Gogledd Cymru a'r awdurdod trwyddedu yn delio â phroblemau sy'n codi mewn eiddo mewn perthynas ag unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu trwy system ysgol orfodi o gamau un i dri.

5.4 Mae'r polisi'n nodi y gall y broses godi i gam dau neu gam tri mewn achosion o droseddau difrifol.

5.5 Atgoffir Aelodau'r Is-bwyllgor Trwyddedu o'r angen i roi rhesymau dros eu penderfyniad.

Ers i'r cais Adolygu gael ei gyflwyno, dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol, er bod Mr Sean Mountford wedi cynnig bod yn oruchwyliwr eiddo dynodedig yn yr eiddo, ni dderbyniwyd unrhyw gais swyddogol, felly Mr David Jai Jones yw’r Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig o hyd.

5.6 Atgoffir yr aelodau bod angen atodi unrhyw amod y cytunwyd ei bod yn berthnasol ac yn gymesur i’r Drwydded Eiddo.

5.7 Dylai aelodau fod yn ymwybodol wrth ystyried amodau diwygiedig i'w atodi i'r Drwydded Eiddo, bydd angen dileu unrhyw amod sy'n bodoli eisoes ac sydd o natur debyg.

5.8 Dylai aelodau nodi, unwaith y bydd camau, fel y manylir arnynt yn Adran 3 yr adroddiad hwn (penderfyniad y Pwyllgor) wedi'u cymryd a bod penderfyniad yn cael ei wneud, nid yw penderfyniad yr Awdurdod yn cael effaith ar unwaith. Dim ond pan fydd y cyfnod ar gyfer gwneud apêl yn dod

i ben, bydd unrhyw benderfyniad yn dod i rym, neu os cyflwynir apêl, bod yr apêl wedi cael ei datrys.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Is-bwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 28 Tachwedd 2018 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu) 01824 706433 trwyddedu@sirddinbych.gov.uk |
| **TESTUN:** | Deddf Trwyddedu 2003<br>Cais am Drwydded Eiddo<br>Origin, 168 Stryd Fawr, Prestatyn<br>LL19 9BW |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi cael cais am Drwydded Eiddo newydd, a gyflwynwyd yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Trwyddedu 2003 mewn perthynas ag Origin, 168 Stryd Fawr, Prestatyn. O ganlyniad i'r ymgynghori angenrheidiol a'r Rhybudd Cyhoeddus gofynnol, mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi derbyn sylwadau perthnasol sy'n gwrthwynebu'r cais. Mae angen i'r Is-bwyllgor wneud penderfyniad ynglŷn â'r cais, gan ystyried yr holl ffeithiau/tystiolaeth berthnasol.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae hwn yn gais am Drwydded Eiddo newydd. Mae'r sylwadau sydd wedi eu derbyn yn ymwneud ag Atal Trosedd ac Anrhefn, Diogelu Plant rhag Niwed ac Atal Niwsans Cyhoeddus.

2.2 Atgoffir yr Aelodau bod yn rhaid i unrhyw benderfyniad a wneir fod yn unol â (i) Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor a (ii) Chanllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

2.3 Gan weithredu yn rhinwedd Awdurdod Trwyddedu, rhaid i Aelodau geisio hybu'r Amcanion Trwyddedu, ac os yw Aelodau'n ystyried bod materion yn gysylltiedig ag un neu fwy o amcanion, gallant arfer eu disgresiwn.

2.4 Atgoffir Aelodau'r Is-bwyllgor Trwyddedu na allant arfer eu disgresiwn mewn unrhyw achos, am eu bod yn ystyried bod hynny'n ddymunol, a dylid rhoi rheswm (rhesymau) dros unrhyw benderfyniad a wneir, neu os penderfynir gwyro mewn unrhyw ffordd o'r Protocol, y Polisi neu'r

Canllawiau.

## 3.0 ARGYMHELLION

3.1 Penderfyniad yr Is-Bwyllgor

Mae'n rhaid i'r Is-Bwyllgor, o ystyried y sylwadau a wneir, gymryd camau o'r fath (isod) y maent yn eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Gall yr Is-bwyllgor:

- Ganiatáu'r Cais fel y gwnaethpwyd cais amdano
- Cyflwyno unrhyw amodau, i'r graddau y mae'r Awdurdod yn eu hystyried yn angenrheidiol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu
- Gwrthod y Cais

## 4.0 GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Ar 5 Hydref 2018, cafodd yr Awdurdod Trwyddedu gais llawn am Drwydded Eiddo newydd. Mae'r Cais wedi cael ei gyflwyno gan Mr Michael Kenneth Watts ac mae copi llawn o'r cais ar gael i'w archwilio yn Atodiad A.

4.2 Mae'r Cais yn dweud y bydd yr eiddo yn gweithredu fel bar gyda cherddoriaeth gefndir tawel, a bydd yn gwerthu alcohol i'w yfed ar yr eiddo ac oddi arno.

4.3 Mae'r ymgeisydd wedi gofyn am ganiatâd i ddarparu'r gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

| GWEITHGAREDD TRWYDDEDADWY | DYDDIAU PERTHNASOL | AMSER O | AMSER HYD |
|---|---|---|---|
| Cerddoriaeth wedi'i Recordio (dan do) | Dydd Sul - Dydd Iau | 12:00 | 23:00 |
| | Dydd Gwener a dydd Sadwrn | 12:00 | 01:00 |
| Amseroedd Ansafonol Amrywiadau Tymhorol | Dydd Sul Gŵyl y Banc | 12:00 | 00:00 |
| | Nos Galan | 11:00 | 02:00 |
| | Noswyl Nadolig | 11:00 | 01:00 |
| Gwerthu Alcohol (i'w yfed ar ac oddi ar y safle) | Dydd Sul - Dydd Iau | 12:00 | 23:00 |
| | Dydd Gwener a dydd Sadwrn | 12:00 | 01:00 |
| | Dydd Sul Gŵyl y Banc | 12:00 | 00:00 |
| | Nos Galan | 11:00 | 02:00 |
| | Noswyl Nadolig | 11:00 | 01:00 |
| Oriau y bydd yr eiddo | Fel rhai a geisir ar | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| yn agored i'r cyhoedd | gyfer gweithgareddau trwyddedadwy | | |

4.4 <u>Deddf Trwyddedu 2003 – gwybodaeth/gofynion</u>

Pan fydd cais yn cael ei gyflwyno am drwydded eiddo, mae'n rhaid rhoi copi llawn i'r Awdurdodau Cyfrifol, sef:

- Yr Heddlu
- Gwasanaeth Tân
- Cynllunio
- Safonau Masnach
- Iechyd yr Amgylchedd
- Iechyd a Diogelwch
- Gwasanaethau Plant
- Awdurdod Iechyd
- Awdurdod Trwyddedu
- Swyddfa Mewnfudwyr

4.5 <u>Hysbysiad Cyhoeddus</u>

Mae'n rhaid i'r ymgeisydd gynnwys hysbysiad mewn papur newydd lleol a gosod hysbysiad ar yr adeilad neu wrth ei ymyl. Bydd hyn yn galluogi unigolion, corff neu fusnes i gyflwyno sylwadau perthnasol. Ond, bydd yn rhaid iddynt ddangos bod eu sylwadau yn ymwneud â hyrwyddo un neu fwy o'r amcanion trwyddedu.

4.6 <u>Sylwadau Perthnasol</u>

Derbyniwyd sylwadau sydd, ym marn y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, yn berthnasol mewn perthynas â'r cais o fewn y cyfnod statudol o 28 diwrnod.

4.6.1 Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cyflwyno sylwadau i'r cais, yn ogystal â nifer o amodau arfaethedig i'w hymgorffori o fewn atodlen weithredu'r eiddo, pe bai'r cais yn cael ei ddyfarnu. Mae'r Ymgeisydd wedi cadarnhau eu bod yn barod i dderbyn yr amodau ychwanegol hyn. Mae manylion am yr amodau a gytunwyd i'w gweld yn Atodiad B.

4.6.2 Mae'r Uwch Swyddog Technegol (Iechyd yr Amgylchedd) wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig yn ymwneud ag agosrwydd yr eiddo i eiddo preswyl. Mae nifer o amodau ychwanegol, felly, wedi eu cynnig i'w cynnwys o fewn y drwydded, pe bai'n cael ei gymeradwyo, er mwyn helpu i atal niwsans cyhoeddus. Mae'r Ymgeisydd wedi cadarnhau eu bod yn barod i dderbyn yr amodau hyn a gellir eu gweld yn Atodiad C.

4.6.3 Mae 1 sylw ysgrifenedig wedi dod i law gan barti sydd â diddordeb mewn ymateb i'r hysbysiad cyhoeddus. Mae'r sylwadau'n ymwneud ag

aflonyddwch posibl oherwydd sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, gellir gweld y manylion yn Atodiad D.

4.6.3.1 Mae swyddogion wedi dechrau hwyluso cyfryngu rhwng yr Ymgeisydd a’r Parti â Diddordeb ond adeg llunio’r adroddiad hwn, nid oeddent wedi canfod datrysiad.

4.6.3 Mae'n bwysig bod Aelodau'n nodi, wrth awgrymu'r dewis o gyfryngu neu drafodaeth i bartïon â diddordeb ac ymgeiswyr, mae'r swyddogion yn ofalus i bwysleisio na ddylai aelodau'r cyhoedd deimlo bod rhaid iddynt gymryd rhan mewn cyfryngu. Hefyd, ni ddylai’r ymgeiswyr deimlo dan bwysau i dderbyn newidiadau i’w hatodlen weithredu os ydynt yn teimlo ei bod yn fwy priodol i’r Aelodau wneud penderfyniad ynglŷn â’r cais.

4.7 Ystyriaethau Amcanion Trwyddedu / Canllawiau / Polisi
Mae'r sylwadau perthnasol yn ymrwymo’r amcanion trwyddedu.

4.8 Cyfeirir yr Is-bwyllgor, mewn perthynas â’r cais hwn, at y canllawiau a roddwyd dan Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003:

- Diogelu Plant Rhag Niwed **Adran 2.22 i 2.32**
- Atal Niwsans Cyhoeddus **Adran 2.15 i 2.21**
- Atal Trosedd ac Anrhefn **Adran 2.1 i 2.6**

4.9 <u>Datganiad Polisi Trwyddedu</u>
Cyfeirir yr Is-bwyllgor, mewn perthynas â’r cais, at Ddatganiad Polisi Trwyddedu’r Cyngor:

- Atal Trosedd ac Anrhefn **Adran 3.1**
- Diogelu Plant Rhag Niwed **Adran 3.4**
- Atal Niwsans Cyhoeddus **Adran 3.3**

4.10 Yn olaf, atgoffir yr aelodau hefyd bod rhaid iddynt ystyried y canlynol wrth wneud penderfyniad ynglŷn â’r cais yn unol â’r Ddeddf Trwyddedu -

- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 sy’n rhoi dyletswydd arno i atal/lleihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal
- Rheolau cyfraith gyffredin o gyfiawnder naturiol
- Darpariaethau Deddf Hawliau Dynol 1998

5.0 **SYLWADAU’R SWYDDOGION**

5.1 Mae Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd wedi cyflwyno’r sylwadau canlynol i gynorthwyo Aelodau gyda’u hystyriaethau.

5.2 Mae’n rhaid i ymgeiswyr gyflwyno Atodlen Weithredu ar gyfer ymgeisio am Drwyddedau Eiddo newydd ac i amrywio Trwyddedau Eiddo. Mae’r Ymgeisydd wedi cynnig nifer o amodau, gellir gweld yr atodlen weithredu arfaethedig fel rhan o'r Drwydded Eiddo yn Atodiad A.

5.3 O ystyried y pryderon a godwyd gan y gwrthwynebwyr, bydd Aelodau'n dymuno gofyn cwestiynau perthnasol i’r Ymgeiswyr (neu eu cynrychiolwyr) er mwyn sicrhau eu bod yn bwriadu defnyddio dulliau priodol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

6.0 **CRYNODEB**

6.1 Fe ddylai Aelodau ystyried y Canllawiau a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor yn ofalus, yn arbennig o ran y meysydd a amlygir yn yr adroddiad hwn. Atgoffir Aelodau mai ar sail tystiolaeth/rheswm da yn unig y dylid gwyro oddi wrth y Polisi.

6.2 Bydd yn ofynnol i'r Aelodau benderfynu a yw'r sylwadau a gyflwynwyd yn berthnasol ac yn briodol i ddiwallu'r amcanion trwyddedu.

6.3 Yn sgil y sylwadau sydd wedi dod i law gan y Parti â Diddordeb, bydd yr Aelodau yn dymuno ystyried y cais hwn am Drwydded Eiddo yn ofalus.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag